**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Dydd Mercher 30 Mehefin 2021, 11.00-11.45
Wednesday 30 June 2021, 11.00-11.45

Lleoliad: drwy Zoom

*Yn bresennol:* *Rhun ap Iorwerth AS/MS (RaI) – Cadeirydd/Chair Tristan Humphreys, Coeliac UK (TH) – Ysgrifennydd / Secretary, Peredur Owen-Griffiths AS (POG), Mark Isherwood AS (MI), Russell George AS (RG), Heledd Roberts (HR), Dr Ieuan Davies (ID),*

| | Eitem |
|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>Graham Phillips, Alison Jones, Dr Jill Swift, Dr Geraint Preest, Dr Richard Cousins. |
| **2** | **Croeso**<br><br>Croesawodd RaI y grŵp a diolchodd i’r aelodau newydd a’r rhai a oedd yn aelodau gynt am roi o’u hamser i gefnogi’r cam o ailsefydlu'r grŵp trawsbleidiol. Tynnodd RaI sylw at bwysigrwydd sicrhau llais yn y Senedd i'r gymuned seliag.<br><br>*Amlinelliad o'r grŵp*<br><br>Esboniodd TH mai'r brif flaenoriaeth ar gyfer y cyfarfod agoriadol oedd ailsefydlu’r grŵp ac ethol Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth newydd. Mae’r awydd i weithredu’n gyflym yn seiliedig ar yr awydd i ddatblygu gwaith y grŵp blaenorol, sy’n adlewyrchu effeithiolrwydd y gwaith hwnnw yn y Senedd flaenorol. Nododd TH fod cymysgedd dda o aelodau, cleifion a gweithwyr gofal iechyd wedi’u cynrychioli yn y grŵp, a thynnodd sylw at werth y grŵp fel ased i'r gymuned seliag yng Nghymru. |
| **3** | **Ethol Swyddogion**<br><br>Diolchodd TH i RaI am gynnig cymryd yr awenau fel Cadeirydd y grŵp, a gwahoddodd enwebiadau gan Aelodau (fel y nodir isod).<br><br>Yn sgil hynny, cafodd y swyddogion a ganlyn eu hethol:<br><br>*Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth AS (enwebwyd gan MI, eiliwyd gan POG)*<br>*Ysgrifennydd: Tristan Humphreys (enwebwyd gan POG, eiliwyd gan MI)* |
| **4** | **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**<br><br>Cafodd TH ei wahodd gan RaI i nodi blaenoriaethau allweddol y grŵp ar gyfer y misoedd i ddod. Tynnodd TH sylw’r Aelodau newydd at yr Adroddiad Etifeddiaeth a luniwyd gan y Grŵp Trawsbleidiol blaenorol, a oedd yn tynnu ynghyd ei waith hyd yma ac yn nodi rhai blaenoriaethau pwysig wrth symud |

| | |
|---|---|
| | ymlaen. Gellir gweld crynodeb gweithredol o'r adroddiad hwnnw yma. Yn benodol, tynnodd TH sylw at ddau faes o ddiddordeb, sef diagnosis a datblygu llwybr clinigol.<br><br>Yn gyntaf, mae **tanddiagnosis a chamddiagnosis** mewn perthynas â chlefyd seliag yn parhau i fod yn her sylweddol yng Nghymru ac ar draws y DU gyfan. Dim ond tua 30 y cant o bobl â chlefyd seliag sydd wedi cael diagnosis. Mae hynny'n golygu bod oddeutu hanner miliwn o bobl heb gael diagnosis, ac mae'r bobl hynny felly'n wynebu'r risg o ddatblygu cyflyrau cysylltiedig tymor hir.<br><br>Nododd ID yr heriau sy'n bodoli o ran amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau endosgopi, ac yn benodol yr effaith y mae COVID wedi'i chael arnynt. Gwnaed cynnydd sylweddol ar y mater hwn yn y blynyddoedd hyd at 2020, ond yn anffodus, mae'r pandemig wedi llesteirio'r broses honno. Gwnaed braidd dim gwaith dewisol y llynedd, ac mae gofyn mynd i'r afael ag ôl-groniad hir o waith dewisol a thriniaeth ymchwiliol. O safbwynt oedolion, mae'n debygol y bydd y broses o ddal i fyny yn cymryd blynyddoedd. Yn ei dro, y pryder yw y bydd y broses hon yn canolbwyntio ar ganser a chlefyd llid y coluddyn ac ati, a hynny ar draul clefyd seliag. Gallai hyn effeithio ar ddiagnosis mewn modd sy'n peri pryder.<br><br>Cynigiodd RaI fod y grŵp yn anfon llythyr at y Gweinidog yn gofyn am adroddiad ar sefyllfa'r gwasanaeth iechyd o safbwynt gwasanaethau endosgopi ac, yn wir, y sefyllfa o ran diagnosis yn fwy cyffredinol.<br><br>CAM GWEITHREDU TH i ddrafftio llythyr at y Gweinidog a'i rannu â RaI.<br><br>Yn ail, mae'r grŵp wedi dangos diddordeb penodol mewn datblygu **llwybr clinigol ar gyfer clefyd seliag**. Gwnaed rhywfaint o waith diddorol ar y mater hwn yn yr Alban, ac mae rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud arno drwy'r Rhaglen ar Foderneiddio Llwybrau Cleifion. Fodd bynnag, rydym mewn cyfnod cymharol gynnar yma yng Nghymru. Cafodd ID ei wahodd gan TH i rannu ei sylwadau am y maes penodol hwn.<br><br>Cytunodd ID fod hwn yn fater y dylai'r grŵp fod yn canolbwyntio arno. Amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer llwybr clinigol sy'n canolbwyntio ar glefydau penodol ac sy'n cwmpasu plant ac oedolion. Dylai'r egwyddorion gynnwys sicrhau tegwch o ran mynediad; sicrhau bod cleifion – p'un a ydynt yn blant, yn bobl ifanc neu'n oedolion – yn destun triniaeth ymchwiliol briodol, a'u bod yn cael diagnosis amserol; sicrhau bod arbenigwr yn egluro natur afiechydon i gleifion; a sicrhau bod cleifion yn cael sylw dilynol a gofal o'r radd flaenaf. Cyfeiriodd ID hefyd at yr angen i weithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r canllawiau presennol, gan ddadlau bod cyfle i Gymru arwain ar y gwaith hwn.<br><br>Disgrifiodd ID y datblygiadau a welwyd o ran pediatreg a allai fod yn berthnasol i'r darn hwn o waith. Mae gwasanaethau gastroenteroleg ar y lefel drydyddol yn cael eu hadlinio ychydig ar hyn o bryd, gyda gwasanaethau diagnosis ar gyfer De a Chanolbarth Cymru yn cael eu canoli drwy ysbyty Treforys ger Abertawe. Dylai hyn sicrhau bod pobl yn cael cyngor arbenigol cyflym, a'u bod yn cael gwybodaeth yn gynnar, a bod yr hyn y gellir ei ddarparu yn agos i'w cartrefi yn cael ei ddarparu yn agos i'w cartrefi. Dyma'r model sy'n cael ei argymell ar gyfer plant, ac yn ôl ID, byddai hyn yn gwneud synnwyr drwy gydol bywyd y claf.<br><br>Awgrymodd RaI fod y grŵp mewn sefyllfa dda i ddod â'r rhanddeiliaid a'r |

**Commented [EC(CyS|SC1]:** Methu dod o hyd i adroddiad Cymraeg unrhyw le. Os oes un yn bodoli, a fyddai modd i chi newid y linc plîs?

| | |
|---|---|
| | arbenigedd perthnasol ynghyd er mwyn llunio llwybr o'r fath, ac y gallai ddechrau trafod y prosiect hwn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>CAM GWEITHREDU TH i geisio barn rhanddeiliaid allweddol ynghylch y llwybr clinigol, a rhoi cyflwyniad i'r grŵp ar y mater yn y cyfarfod nesaf. |
| **5** | **Galwad am waith ymchwil gan Coeliac UK**<br><br>Tynnodd TH sylw at y ffaith bod Coeliac UK wedi lansio galwad am waith ymchwil, gan wahodd unrhyw Aelodau sydd â diddordeb i gysylltu er mwyn cael rhagor o wybodaeth.<br>Mae Coeliac UK yn cynnig grant peilot/prawf cysyniad ar gyfer gwaith ymchwil ym maes clefyd Seliag mewn plant a phobl ifanc, a hynny mewn partneriaeth â Chymdeithas Gastroenteroleg, Hepatoleg a Maeth Bediatreg Prydain (BSPGHAN).<br><br>Mae ymchwilwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau i'r alwad hon a fydd yn sail i ddeg prif flaenoriaeth ymchwil Coeliac UK, a gallant wneud cais am hyd at £15,000 ar gyfer prosiect 18 mis o hyd ar y mwyaf. I gael rhagor o wybodaeth, gallant gysylltu ag Alice Andrews, swyddog ymchwil, gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein hon ar gyfer gwneud ymholiadau.<br><br>Gofynnodd RaI am ddiweddariad ymchwil mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CAM GWEITHREDU TH i drefnu diweddariad ymchwil gan Coeliac UK mewn cyfarfod yn y dyfodol. |
| **6** | **Pwyllgorau'r Senedd a phwysigrwydd cynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol**<br><br>Nododd RG y cynnig a wnaed i bwyllgorau'r Senedd gwrdd yn llai rheolaidd, a chododd bryderon ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar eu gallu i ymdrin yn effeithiol ag ystod o faterion a chraffu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, croesawodd RD waith da'r Grŵp Trawsbleidiol hyd yma, gan nodi bod cyfle iddo gael mwy fyth o effaith. Cytunodd RaI fod y pryder hwn yn un gwirioneddol, a'i fod yn gosod baich ychwanegol ar y grwpiau trawsbleidiol ym maes iechyd. |
| **7** | **Fformat cyfarfodydd – cyfarfodydd ar-lein a dwyieithrwydd**<br><br>Cynigiodd RaI fod y grŵp yn parhau i gwrdd ar-lein, gan nodi'r hyblygrwydd cynyddol y mae'r trefniant hwn yn ei ganiatáu a'r ffaith ei fod yn ehangu'r cyfleoedd i ymgysylltu ag aelodau yng Ngogledd Cymru. Cytunodd y grŵp yn unfrydol ar hyn.<br><br>Yn ogystal, eglurodd RaI y byddai'r grŵp yn ceisio gweithio'n gwbl ddwyieithog wrth symud ymlaen. Mae rhai problemau technegol wedi dod i'r amlwg o ran cael trwyddedau Zoom Pro, ond y gobaith yw y bydd y sefyllfa hon yn cael ei datrys yn fuan. Dylai gweithio'n ddwyieithog hefyd fod yn haws ar-lein. Bydd popeth arall, o ran llythyrau a mathau eraill o gyfathrebu, yn ddwyieithog hefyd. |
| **8** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf yn nhymor yr hydref. Dyddiad i'w gadarnhau.<br><br>CAM GWEITHREDU: TH i gysylltu ag Aelodau a rhannu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. |

| **Camau gweithredu** | **Aelod** |
|---|---|
| CAM GWEITHREDU: Drafftio llythyr at y Gweinidog a'i rannu â RaI. | TH |
| CAM GWEITHREDU: Ceisio barn rhanddeiliaid allweddol ynghylch y llwybr clinigol, a rhoi cyflwyniad i'r grŵp ar y mater yn y cyfarfod nesaf. | TH |
| CAM GWEITHREDU: Trefnu diweddariad ymchwil gan Coeliac UK mewn cyfarfod yn y dyfodol. | TH |
| CAM GWEITHREDU: Cysylltu ag Aelodau a rhannu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. | TH |

**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Dydd Mercher 30 Mehefin 2021, 11.00-11.45

Lleoliad: drwy Zoom

*Rhun ap Iorwerth AS/MS (RaI) – Cadeirydd/Chair (i'w gadarnhau)*
*Tristan Humphreys, Coeliac UK (TH) –Ysgrifennydd/Secretary (i'w gadarnhau)*

| Rhif | Eitem | Noddwr | Amser (munudau) |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | TH | |
| 2 | Croeso<br>• Croeso gan TH a throsolwg o'r grŵp<br>• Cyflwyniadau byr. | TH | 10 |
| 3 | Ethol Swyddogion / CCB<br>a. Enwebiadau / eilio<br>b. Pleidleisio | TH | 5 |
| 4 | Amser / fformat cyfarfodydd<br>a. Trafodaeth | TH | 5 |
| 5 | UFA / Cwestiynau | TH | - |
| **11.45 Diwedd** | | | |